

Pwy flociodd y bibell?



Newyddion Dŵr Cymru

WEIPS YN Y PEIPS – TRAFFERTH Â'R DRAENIAU

Yn gynnar fore lau, galwyd un o'n peirianwyr i rif 48 Lôn yr Ysgol, Pen-y-bloc, ar ôl i Mrs Pritchard ffonio i ddweud bod ganddi broblem.

Roedd Mrs Pritchard wedi cynhyrfu achos roedd wedi sylwi bod ei draeniau'n rhedeg yn araf ac roedd yn cael trafferth tynnu dŵr y toiled. Roedd Mrs Pritchard yn poeni achos cafodd lifogydd yn y tŷ rai blynyddoedd yn ôl am fod ei phibellau wedi blocio gan atal ei dŵr gwastraff rhag llifo trwyddynt.

"Roeddwn yn meddwl efallai bod y garthffos wedi blocio ac fe ffoniais i Dŵr Cymru i ddod i helpu. Roedden nhw'n help mawr rai blynyddoedd yn ôl pan orlifodd dŵr a charthion i'r ystafell

ymolchi. Dydyn ni ddim yn taflu weips i lawr y toiled gan ein bod yn gwybod faint o drafferth y gall hynny ei achosi, ond mae rhywun yn y stryd yn gwneud hynny! Gobeithio na fydd yn digwydd i ni eto," meddai Mrs Pritchard yn ddagreuol.

Yn awr, mae Mrs Pritchard wedi dechrau cnocio ar ddrysau yn sôn wrth bobl am yr ymgyrch 'Stop cyn Creu Bloc'. Mae'n annog ei chymdogion i beidio â thafu dim byd ond y 'Tair P' – Pî-pî, Pŵ a Papur (Toiled) i lawr y toiled. Mae'n cael help Dylan Williams, bachgen naw oed sydd wedi cymryd rhan mewn gweithdy yn un o Ganolfannau Darganfod Dŵr Cymru.


Meddai Dylan, "Dwi'n helpu Mrs Pritchard i ddweud wrth bobl beth y cewch chi ei daflu i'r toiled a beth na chewch chi. Ro'n i wedi bod yng Nghanolfan Ddarganfod Cilfynydd ac wedi dysgu llawer. Doedd Mam ddim yn gwybod na ddylech chi roi weips yn y toiled!"

Daeth y peirianwyr i dŷ Mrs Pritchard a llwyddo i ddadflocio'r garthffos (llun isod). Dywedon nhw mai weips oedd y prif bethau oedd yn blocio'r garthffos. Dydyn ni ddim yn gwybod pwy sydd wedi bod yn taflu weips i'r toilet, ond mae Mrs Pritchard a Dylan Williams yn dal i holi'r cymdogion a dweud wrthynt am beidio eu fflysio, dim ond y Tair P – pî-pî, pŵ a phapur toiled.



Llun o weips a dynnwyd o'r garthffos o dan Lôn yr Ysgol. Bob mis, mae Dŵr Cymru'n delio â 2,000 o achosion fel hyn o garthffosydd yn blocio.

Pwy flociodd y bibell?

 Send

To... Mr Jones YBos@dwrcymru

Cc...

Subject Carthffos wedi'i blocio ar Lôn yr Ysgol

Annwyl Mr Jones,


Rwyf newydd fod yn 46 Lôn yr Ysgol yng nghymuned Pen-y-bloc ar ôl cael galwad ffôn gan un o'r trigolion, Mrs Pritchard. Dywedodd Mrs Pritchard fod y draeniau'n rhedeg yn araf a chofiodd i ni ddelio â phroblem debyg yn y stryd rai blynyddoedd yn ôl. Carthffos oedd wedi'i blocio bryd hynny. Cyrhaeddais i a'r tîm i'r safle tua 8:20am yn Fan 86. Gwelsom fod caead siambr archwilio y tu allan i rif 46 ac aethom ati i ymchwilio. Ar ôl gweithio am rai oriau, daethom o hyd i'r hyn oedd yn blocio'r garthffos a llwyddo i'w dynnu'n ddiogel heb ddifrodi'r bibell gorthffosiaeth. Roedd y blociad yn eithaf mawr, yn ymestyn o rif 46 i lawr i rif 44. Rydym yn credu mai yn y fan honno y dechreuodd y blociad.

Ar ôl cynnal archwiliad manwl o'r stwff a dynnwyd, gallwn gadarnhau mai weips oedd y brif broblem. Credwn fod angen esbonio wrth drigolion y stryd beth sy'n iawn i'w daflu i lawr y toiled a beth na ddylid ei fflysio. Roedd pethau eraill yn y garthffos hefyd fel ffyn cotwm, papur sychu dwylo, braster, olew a saim. Rwyf wedi rhannu taflenni Stop Cyn Creu Bloc ac mae mab un pâr o'r stryd, sydd wedi bod yn ein canolfan addysg yng Nghilfynydd, yn helpu i ledaenu'r neges.

Cofion,

Gary


Prif Beiriannydd




Dŵr Cymru
Welsh Water

Educating
our future
customers

Addysgu
cwsmeriaid
y dyfodol



Pwy flociodd y bibell?



Pwy flociodd y bibell?

Annwyl Ddyddiadur,

*Dwi newydd gyrraedd
adre o dŷ Harri a Gwen lle'r o'n i'n
gwarchod Dylan a Seren.*

*Roedd Seren yn ferch dda iawn.
Fe gysgodd hi'r rhan fwy o'r
amser. Ond roedd rhaid i fi newid
ei chlwt ddwywaith neu dair! Ych
a fi!*

*Gobeithio na fydd Gwen yn sylwi
faint o weips ddefnyddiais i!
Wnes i eu fflysio nhw lawr y toilet
rhag iddi weld. Fe ddefnyddiais i
bron i becyn cyfan!*


*Wnaethon ni wyllo hoff ffilm
Dylan...eto! Er fy mod i'n cwyno,
dwi wrth fy modd go iawn! Pwy
sy ddim yn hoffi canu gyda
Moana?! Gobeithio y caf i fynd i
warchod y plant i Gwen a Harri
eto. Mae eu tŷ nhw'n gynnes, braf
ac mae Gwen yn gadael snacs
blasus i Dylan a fi!*

*Dwi'n mynd i siopa gyda fy
ffrindiau fory i wario'r arian
enillais i heno! Edrych mlaen!*

Nos Da

Erin

Pwy flociodd y bibell?



Gwen Williams

Dilyn

Gobeithio y cawn ni wybod pwy sy'n blocio draeniau'n stryd ni! Dydi pobl ddim yn deall!

Tua 3 diwrnod yn ôl

Cofiwch y Tair P – Peidiwch â thafu dim byd ond Pi-pi, Pw a Papur (toiled) i lawr y toiled. Rhowch bopeth arall yn y bin!

Tua 3 diwrnod yn ôl

Mae Mrs Pritchard a'n mab ni, Dylan, yn galw gyda phawb yn y stryd i'w helpu i ddeall beth gân nhw ei fflysio i lawr y toiled a beth na chn nhw...

Tua 3 diwrnod yn ôl

Mae draeniau ein stryd ni wedi blocio eto! Peidiwch â fflysio weips!!!! Mae Dŵr Cymru wedi cyrraedd i achub y dydd!

Tua 4 diwrnod yn ôl

Edrych ymlaen at noson allan heno! 😊

Tua 7 diwrnod yn ôl

#StopCynCreuBloc

Tua 10 diwrnod yn ôl

Mae Dylan newydd ddod adre o Ganolfan Ddarganfod Dŵr Cymru @DiscoverDwr. Mae wedi dysgu llawer i fi'n barod. Oeddech chi'n gwybod na ddylech chi fflysio weips?!

Tua 18 diwrnod yn ôl

Alla i ddim credu bod Dylan yn 9 oed! Pen-blwydd hapus Dylan 😊

Tua 30 diwrnod yn ôl

Yn ôl i'r ysgol heddiw! Pob hwyl i bawb yn Ysgol Hapus x

Tua 36 diwrnod yn ôl

Paratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd – rhaid prynu esgidiau ysgol newydd!!

Tua 40 diwrnod yn ôl

Mae Dylan yn help mawr o gwmpas y tŷ! Mae byth a hefyd yn tacluso ar ôl ei chwaer fach Seren! Weips ym mhobman 😊 Rydyn ni'n gorfod eu fflysio trwy'r amser!

Tua 47 diwrnod yn ôl

Name: Gwen Williams

Location: 44 Heol yr Ysgol, Pen-y-Bloc, Cymru

Bio: Helo, Gwen ydw i! Rwy wrth fy modd yn crwydro yn yr awyr agored gyda Harri'r gŵr, Dylan y mab a Seren fach.

234

followers

12

Following

Favourites

Following



Discover Dwr



Catrin Jones



Gethin Llewellyn



Harri Williams

Pwy flociodd y bibell?

Darllenwch eich testun yn ofalus! Cofiwch, mae angen i chi ddefnyddio tystiolaeth o'r testun i BROFI pwy sydd wedi blocio'r bibell. Defnyddiwch y cwestiynau hyn i'ch helpu...

Y papur newydd

Pwy sy'n poeni am y blociad? Pam?

Beth yw ei chyfeiriad?

Pwy sy'n ei helpu?

Beth achosodd y blociad?

Ar ôl darllen y testun hwn, a ydych yn amau rhywun? Beth yw'ch tystiolaeth?

Neges ebost

Pwy anfonodd y neges ebost?

I ba ddy'r aeth ef?

Beth oedd wedi achosi'r blociad?

Pa mor fawr oedd y blociad?

Ar ôl darllen y testun hwn, a ydych yn amau rhywun? Beth yw'ch tystiolaeth?

Pwy flociodd y bibell?

Negeseuon testun

Pwy sy'n cymryd rhan yn y sgwrs negeseuon testun?

Beth yw pwrpas y negeseuon testun?

Ydych chi'n meddwl bod y bobl sy'n cael y sgwrs yn ffrindiau? Pam?

Ar ôl darllen y testun hwn, a ydych yn amau rhywun? Beth yw'ch tystiolaeth?

Dyddiadur

Pwy sydd wedi ysgrifennu'r dyddiadur?

O ble mae hi wedi dod?

Am beth mae hi'n poeni?

Faint ydych chi'n meddwl yw ei hoedran?

Ar ôl darllen y testun hwn, a ydych yn amau rhywun? Beth yw'ch tystiolaeth?

Trydariadau

Pwy yw Gwen Williams?

Ble mae hi'n byw?

Pwy yw Dylan?

Beth sy'n ei synnu hi?

Ar ôl darllen y testun hwn, a ydych yn amau rhywun? Beth yw'ch tystiolaeth?